# CYNGOR CYMUNED LLANBADARN FAWR

**COFNODION** y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau a gynhaliwyd ar DDYDD LLUN, **6 IONAWR, 2020** yn Festri Soar, Llanbadarn Fawr**.**

**6.35 yh. i 7.45 yh.**

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** **Linda Keeler (Cadeirydd), Ben Davies, Mark Hemingway, Dafydd Pritchard.**

**Yn gweinyddu:** Mrs Tegwen Jones (Clerc)

**1) YMDDIHEURIADAU –** Dim.

**2) MATERION PERSONOL:**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau.

**3) YSTYRIED ADRODDIAD Y CLERC AR Y GYLLIDEB AC ARGYMELL CYLLIDEB A LEFEL Y PRAESEPT AR GYFER 2020/2021 I'R CYNGOR CYMUNED YN EU CYFARFOD AR 13 IONAWR, 2020.**

- Derbyn y ffigyrau hyd at 22 Rhagfyr, 2019;
- Derbyn y gyllideb ddiwygiedig a gafodd ei llunio ar gyfer 2019/2020.
- Gwneud cais am Braesept o £38,531 ar gyfer 2020/2021;
- Cymeradwyo'r gyllideb ddrafft er mwyn adlewyrchu'r Praesept o £38,531 sy'n cael ei argymell.
- Defnyddio'r arian sy'n weddill a'r cronfeydd wrth gefn i ariannu llochesau bws, meinciau, hysbysfwrdd a glanhau'r Gofeb Rhyfel. Y farn oedd bod y cronfeydd dros ben yn fwy na digon.